# Pecyn Ymgeiswyr

## Cyfarwyddwr Cynnyrch

WJEC CBAC

# Cynnwys


Croeso gan y Prif Weithredwr, Ian Morgan ..........3
Ynglŷn â CBAC..........4
Y Corff..........4
Cyd-Destun y Farchnad..........7
Tîm Arwain Gweithredol (TAG)..........12
Bwrdd y Cyfarwyddwyr..........12
Disgrifiad swydd a manyleb person..........13
Prif bwrpas y Swydd: ..........13
Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:..........13
Manyleb y Person ..........16
Telerau ac Amodau..........17
Sut i ymgeisio..........17

# Croeso gan y Prif Weithredwr, Ian Morgan



Diolch am ddangos diddordeb yn CBAC.

Rwyf yn falch iawn eich bod yn ystyried cyflwyno cais am rôl newydd Cyfarwyddwr Cynnyrch yn CBAC. Fel un o brif gyrff dyfarnu'r DU, mae CBAC yn datblygu ac yn darparu cymwysterau arloesol, o safon, i ysgolion a cholegau ledled y DU. Byddwn ni hefyd yn cefnogi ein cymunedau addysg drwy gynnig amrywiaeth eang o gefnogaeth arbenigol, fel y gall ein dysgwyr gael y cyfle i gyrraedd eu potensial yn llawn.

Mae CBAC yn ehangu'r hyn y mae'n ei ddarparu gan greu Cymwysterau Galwedigaethol newydd a datblygu cyfres ddiwygiedig o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig. Mae'n atgyfnerthu ei dîm Cymwysterau ac Asesu drwy gyflwyno swydd Cyfarwyddwr Cynnyrch newydd i arwain yn strategol ar berfformiad cynnyrch, rheoli portffolio cynhyrchion, a gwybodaeth am y farchnad.

Fel ein Cyfarwyddwr Cynnyrch, chi fydd yn berchen ar y strategaeth cynnyrch ar gyfer pob un o'n cymwysterau.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i fod yn ymuno â CBAC wrth i ni barhau i ddatblygu cymwysterau newydd i gefnogi 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' yng Nghymru a chychwyn ar y gwaith o ddiwygio cymwysterau yn Lloegr. Bydd hyn yn gyfle i gefnogi ein huchelgais i ehangu ymhellach yn y marchnadoedd galwedigaethol a thechnegol.

Mae cefnogi ein staff yn brif ymrwymiad gennym ac yn ddiweddar enillasom wobr Cyflogwr y Flwyddyn (Categori Arian) yng ngwobrau arobryn Buddsoddwyr mewn Pobl (IIP) yn Llundain. Felly, os yw'r cymhelliant a'r dyfalbarhad gennych i gyfrannu at barhad llwyddiant CBAC yn ogystal â'r wybodaeth, sgiliau a'r profiad technegol i ymgymryd â'r rôl, yna rydym yn awyddus i glywed gennych.

Ian Morgan
Prif Weithredwr

# Ynglŷn â CBAC



## Y Corff


Mae CBAC yn gorff dyfarnu blaenllaw a ddatblygodd o'r Cyd-bwyllgor Addysg Cymru gynt, a sefydlwyd yn 1948. Gyda phrofiad o dros 75 mlynedd o ddarparu cymwysterau, CBAC yw'r prif ddarparwr cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yng Nghymru ac un o brif ddarparwyr Lloegr a Gogledd Iwerddon drwy'r brand Eduqas. Mae gan y corff drosiant o oddeutu £65m.

Mae CBAC yn cyflogi tua 519 o staff wedi'u cefnogi gan aseswyr ac arholwyr ar eu liwt eu hunain. Hefyd, mae ganddo Dîm Adnoddau Addysgol ymroddgar sy'n datblygu adnoddau pwrpasol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bob blwyddyn, mae WJEC CBAC Limited yn dyfarnu tua 85,000 Safon Uwch, 50,000 UG, a mwy na 700,000 o ddyfarniadau pwnc TGAU. Mae CBAC yn un o'r prif ddarparwyr o gymwysterau galwedigaethol a thechnegol cymhwysol, gan ddyfarnu 50,000 o raddau cymwysterau Lefel 3 Cyffredinol Cymhwysol, a mwy na 55,000 o Ddyfarniadau Technegol Lefel 1/2.

Yn ogystal, mae CBAC yn cynnig rhaglen sylweddol o ddigwyddiadau dysgu proffesiynol wyneb yn wyneb bob hydref a gwanwyn, gan ategu hynny â digwyddiadau ar-lein. Bob blwyddyn, mae'r rhaglen dysgu proffesiynol yn cyrraedd oddeutu 16,000 o gynrychiolwyr.

Mae CBAC yn gorff arloesol a dynamig sydd wedi ymrwymo i fabwysiadu dull o weithio hybrid, fydd yn sicrhau hyblygrwydd i'r gweithlu, ac ar yr un pryd yn sicrhau ein bod yn parhau i ateb blaenoriaethau'r busnes i'r safon uchaf.

Elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig drwy warant yw WJEC CBAC Limited. Mae'r corff dan reolaeth y 22 awdurdod lleol yng Nghymru  a Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n ei reoli. Mae ganddo is-gwmni hefyd sef WJEC CBAC (Services) Limited, sy'n cynnig gwasanaethau argraffu a chyhoeddi arbenigol i gefnogi swyddogaethau craidd y Grŵp.


PW
Pennaeth Llywodraethu
Cyfarwyddwr Gweithredol: Cymwysterau ac Asesu (SC)
Cyfarwyddwr Asesu
Cyfarwyddwr Cynnyrch
Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Datblygu Cymwysterau Cyffredinol
Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Datblygu Cymwysterau CGaTh a Sgiliau
Pennaeth Rheoli Portffolio
Rheolwr Gwybodaeth am y Farchnad
Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Ymchwil, Dyfarnu a Safonau
Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Polisi a Rheoleiddio
Cyfarwyddwr Gweithredol: Gweithrediadau
Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Gwasanaethau Gweithredol
Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Gweithrediadau
Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Deunyddiau Asesu, Ansawdd a Dylunio
Pennaeth Rhagoriaeth Cwsmeriaid
Cyfarwyddwr Gweithredol: Digidol a Thrawsnewid
Cyfarwyddwr Cynorthwyol: TG
Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Adnoddau Digidol
Pennaeth Gwasanaethau TG
Pennaeth y Swyddfa Rheoli Projectau
Rheolwr Datblygu E-Asesu
Cyfarwyddwr Gweithredol: Datblygiad Masnachol
Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu
Pennaeth Datblygu Busnes
Cyfarwyddwr Gweithredol: Cyllid a Chaffael
Pennaeth Adrodd Ariannol
Pennaeth Cyfrifyddu Rheoli
Pennaeth Caffael
Pennaeth Prosesau Trafodion
Cyfarwyddwr Gweithredol: Pobl a Threfniadaeth
Pennaeth Gweithrediadau AD
Pennaeth Datblygu'r Sefydliad
Pennaeth y Gwasanaeth Iaith Gymraeg

## Ffeithiau Allweddol

Mae cyfrifoldebau ac allbwn CBAC yn ymwneud â thri phrif faes:

- **Cymwysterau**: Mae CBAC yn darparu cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a galwedigaethol a sgiliau a gydnabyddir yn rhyngwladol, i fyfyrwyr rhwng 14 a 19 mlwydd oed yn bennaf. Cymwysterau Cymru sy'n rheoleiddio cymwysterau CBAC a ddarperir yng Nghymru, Ofqual sy'n rheoleiddio'r cymwysterau a ddarperir yn Lloegr a CCEA (Council for the Curriculum, Examinations and Assessment) sy'n rheoleiddio'r cymwysterau a ddarperir yng Ngogledd Iwerddon. Drwy'r brand Eduqas, mae CBAC yn cynnig cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol i ysgolion a cholegau yn Lloegr, sy'n cynrychioli tua 50% o'r gweithgaredd cymwysterau.

- **Adnoddau Addysgol**: Mae tîm adnoddau addysgol CBAC yn datblygu adnoddau addysgol ar-lein o safon i gefnogi ei gymwysterau. Gellir cael yr adnoddau dwyieithog hyn yn rhad ac am ddim o wefan adnoddau CBAC http://adnoddau.cbac.co.uk/ a gwefan adnoddau Eduqas http://resources.eduqas.co.uk/ . Hefyd, mae CBAC yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a chyhoeddwyr allanol er mwyn sicrhau bod adnoddau cyfrwng Cymraeg addas ar gael.

- **Datblygiad Proffesiynol a Chefnogaeth**: I bob athro sy'n cyflwyno ei fanylebau mae CBAC yn cynnig pecyn cynhwysfawr o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol. Yn eu plith mae cyrsiau hyfforddi wyneb yn wyneb a gweminarau dan arweiniad arbenigwyr pwnc. Darperir offer defnyddiol fel Adolygiad Arholiadau Ar-lein, Banc Cwestiynau a Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau hefyd.



## Gweithlu dynamig

Mae gweithlu CBAC yn un cryf a dynamig sydd wedi ymrwymo i'w gwsmeriaid ac i dwf a datblygiad CBAC i fod yn brif ddarparwr cymwysterau. Swyddogion Pwnc sy'n arwain timau'r pynciau, ac mae llawer ohonynt yn gyn-athrawon/darlithwyr sydd â phrofiad eang yn yr ystafell ddosbarth. Maen nhw'n arwain cyflwyniad y cymwysterau ac wedi'u cefnogi gan y Swyddogion Cefnogaeth Pwnc. Gall athrawon a darlithwyr gysylltu'n uniongyrchol â thimau'r pynciau, a gallant ddibynnu ar gyngor ac arweiniad amserol a phwrpasol y timau.




Darperir cefnogaeth rheng flaen i'n hysgolion a cholegau gan y Timau Polisi a Rheoleiddio, a Gweithrediadau. Maent yn rheoli amrywiaeth o dasgau o gofrestriadau i arweiniad ynghylch apeliadau.

Yn fewnol, bydd yr holl staff yn manteisio ar gefnogaeth arbenigol gan amrywiaeth o dimau gwybodus gan gynnwys TGCh, AD, Cyllid a Marchnata; gan sicrhau bod CBAC yn parhau i ddarparu cefnogaeth a gwasanaeth o'r radd flaenaf yn y sector i'r canolfannau.

Sefydlwyd enw da'r corff dros flynyddoedd lawer ac mae'n falch iawn o'r enw da hwnnw, gan dderbyn adborth arbennig o gadarnhaol gan gwsmeriaid ynghyd â gwerthfawrogiad o'r adnoddau a'r gefnogaeth a ddarperir.

## Edrych at y Dyfodol – Ein Gweledigaeth

Ymrwymodd CBAC i weledigaeth o drawsnewid, er mwyn cynnal ei rôl ganolog ym myd addysg y DU. Y nod yn y pendraw yw cefnogi'r cymunedau addysg trwy ddarparu cymwysterau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol, er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.



## Cyd-Destun y Farchnad

Mae CBAC yn gweithredu mewn byd addysg sy'n gymhleth ac yn newid yn gyson. Gwelir hyn yn arbennig o amlwg yn yr ymwahaniad polisi o ran cymwysterau i rai 14-19 mlwydd oed sydd ac yn parhau i ddod yn weithredol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn ei raglen flaenorol o ddiwygio cymwysterau cyffredinol, darparodd CBAC wahanol fanylebau ac asesiadau i fodloni'r polisïau neilltuol. Yn y gorffennol, un fanyleb a gafwyd, yn y rhan fwyaf o bynciau, i bob pwnc i fodloni gofynion y tair gwlad. Mae'r gwahaniaethau sy'n bodoli ym mhob awdurdodaeth wedi ychwanegu at gymhlethdod yr amgylcheddau rydyn ni'n gweithredu ynddynt. Heddiw, felly, mae CBAC yn gweithredu mewn tair gwlad ac yn atebol i dri rheoleiddiwr.

Mae'r broses o ddiwygio cymwysterau ar fin dechrau o ddifrif yn Lloegr, yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Cwricwlwm ac Asesu ac ymateb y Llywodraeth i hynny, yn ogystal â'r Papur Gwyn Addysg a Sgiliau ôl-16. Gyda'i gilydd, bydd effaith y diwygiadau hyn yn fawr ar y farchnad cymwysterau, ac mae CBAC mewn sefyllfa dda i ymateb i hyn.

Cynyddodd lefel y rheoleiddio hefyd i sicrhau bod cymwysterau'n ddilys ac yn ddibynadwy a'r safonau'n cael eu cynnal o fewn ac ar draws yr holl gyrff dyfarnu. Mae CBAC yn cydweithio'n agos ag Ofqual,

Cymwysterau Cymru a CCEA yn ystod cylchred oes cymwysterau, gan ymwneud â'r gofynion archwilio a monitro, a darparu gwybodaeth ddiffiniedig a datganiadau blynyddol o gydymffurfiaeth er mwyn sicrhau bod cymwysterau'n parhau i fod yn addas i'r pwrpas. Yn rheolaidd, mae CBAC yn ymgynghori â'i reoleiddwyr ynghylch cymwysterau newydd, polisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddaru, ac ynghylch meysydd ffocws penodol yn seiliedig ar brofiadau ymchwil a chyfresi arholiadau. Bydd rhai o'r cysylltiadau â'r rheoleiddwyr yn digwydd drwy'r Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ), sef cymdeithas sector y mae CBAC yn aelod ohoni ynghyd â'r chwe chorff dyfarnu mwyaf arall yn y DU. Mae Prif Weithredwr CBAC yn aelod o Fwrdd y CGC.

## Cymwysterau

Mae CBAC yn cynnig amrediad eang o gymwysterau cyffredinol a galwedigaethol. Datblygir pob cymhwyster ar sail gofynion rheoleiddiol caeth gan fod yn destun prosesau sicrhau ansawdd llym. Ein tîm Datblygu Cymwysterau ymroddgar sy'n arwain y datblygiadau hyn, gan gydweithio â'n Swyddogion Pwnc ac amryfal randdeiliaid i sicrhau bod pob cymhwyster yn ymdrin â nifer digonol o destunau, yn ymgysylltu â'r dysgwyr ac yn gwneud yn siŵr bod y set ddymunol o sgiliau ganddynt. Maent yn brofiadol iawn yn creu a rheoli cymwysterau sy'n bodloni disgwyliadau'r cwsmer a'r rheoleiddwyr.



### Cymwysterau cyffredinol

Mae CBAC yn cynnig pecyn cyflawn o gymwysterau TGAU ac UG/Safon Uwch i ganolfannau ledled y DU. Mae pob cymhwyster yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sy'n berthnasol i'w hawdurdodaeth benodol, ac mae pecyn penodol o gefnogaeth ar gael i'w cefnogi gan gynnwys mynediad uniongyrchol i arbenigwyr pwnc, dysgu proffesiynol ac adnoddau digidol rhad ac am ddim.

Mae ein portffolio o gymwysterau'n parhau i dyfu, yn unol â'r gofynion rheoleiddiol ond hefyd ag anghenion a buddion y farchnad. Hefyd, rydym yn adolygu cynnwys ein hasesiadau a'n cymwysterau yn barhaus i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn rhoi i ddysgwyr y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnyn nhw i symud ymlaen.

### Cymwysterau Galwedigaethol

Yn ogystal â phecyn o gymwysterau TGAU ac UG/Safon Uwch, mae CBAC hefyd yn cynnig cyfres gref o gymwysterau galwedigaethol o Lefel Mynediad i Lefel 3. Lansiodd CBAC gymwysterau Dyfarniadau Galwedigaethol newydd ar Lefel 1/2 ym mis Medi 2022. Mae'r rhain yn ymdrin ag amrywiaeth o destunau gan gynnwys Busnes, Adeiladu a'r Celfyddydau Perfformio. Lansiwyd cyfres newydd o gymwysterau Lefel 3 ym mis Medi 2023 sy'n cynnwys Busnes, Peirianneg, Chwaraeon a Thwristiaeth. Mae gan CBAC gontract i ddarparu'r Lefel T mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu o fis Medi 2025, ac mae hynny'n gam mawr tuag at ehangu ein portffolio cynhyrchion i'r maes cymwysterau galwedigaethol a thechnegol.



## Cymru

Yng Nghymru, CBAC bellach yw unig ddarparwr y rhan fwyaf o'r cymwysterau TGAU a Safon Uwch, yn ogystal â Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch. Cynhaliwyd adolygiadau ar draws y sector galwedigaethol ac mae hyn wedi creu cyfleoedd i ddatblygu TGAU newydd megis Adeiladu. Drwy fod yr unig ddarparwr yng Nghymru, mae newid wedi bod yn y ffordd y caiff CBAC ei ystyried gan Lywodraeth Cymru, y consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau; mae'n hollbwysig bod CBAC yn parhau i ddangos bod ei ddarpariaeth yn rhoi gwerth am arian a lefelau uchel o wasanaeth i gwsmeriaid.

Yn ganolog i gyfraniad CBAC yng Nghymru mae ei gefnogaeth i'r ymrwymiad yng Nghymru i sicrhau cyfundrefn addysg ddwyieithog. Dyma un o'r gofynion hanfodol ac yn faes mae’r corff yn parhau i’w ddatblygu. Mae CBAC yn parhau i weithio gyda chyhoeddwyr adnoddau, Comisiynydd y Gymraeg a Cymwysterau Cymru i annog a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae CBAC yn cydnabod effaith y cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu partneriaid yn y sector addysg, ac yn paratoi ar yr un pryd am newidiadau pellach yn y maes cymwysterau sy'n deillio o ddiwygiadau cwricwlwm.

Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r cymwysterau diwygiedig yn deillio o'r adroddiad "Dyfodol Llwyddiannus" (Chwefror 2015): adolygiad annibynnol o’r cwricwlwm a’r trefniadau asesu yng Nghymru. Yn yr adolygiad, cynigiwyd chwe maes dysgu o'r celfyddydau mynegiannol i wyddoniaeth a thechnoleg, dysgu di-dor a chymhwysedd digidol. Mae cyfleoedd allweddol ar gael i CBAC i weithio'n strategol fel darparwr o ddewis yn dilyn y newidiadau i asesu yn ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru a chyfleoedd newydd eraill yng Nghymru yn ymwneud â chymwysterau galwedigaethol diwygiedig. Caiff hyn ei gyfleu yn y dewis newydd sydd gan CBAC o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru. Cafodd y rhain eu cymeradwyo i'w haddysgu am y tro cyntaf mewn dwy don – Medi 2025 a Medi 2026.

Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu Cymwysterau 14-16 Cenedlaethol, yn cynnwys cymwysterau TAAU a Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith galwedigaethol eu naws, cymwysterau Sylfaen Cyffredinol, Projectau Personol a chymwysterau Sgiliau. Mae marchnad y cymwysterau hyn yn un agored, ac mae CBAC felly'n cystadlu â darparwyr eraill i gynnig y cymwysterau hyn.

## Lloegr

Yn Lloegr, mae'r farchnad y mae CBAC yn gweithredu ynddi yn un hynod gystadleuol. Cyflwynodd CBAC ei frand Eduqas er mwyn sicrhau bod gwahaniaeth clir rhwng ei gymwysterau diwygiedig yng Nghymru a

Lloegr. CBAC yw un o'r pedwar prif fwrdd arholi sy'n cystadlu am gyfran o'r farchnad ar draws cymwysterau cyffredinol. Mae tîm bach yn gweithredu yn y maes er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o gymwysterau a gwasanaethau cefnogol perthynol. Ar hyn o bryd mae cyfran CBAC o'r farchnad yn amrywio ar draws y meysydd pwnc, a'r dull strategol o ran ymdrin â hyn yn hynod o bwysig. Mae CBAC yn cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau ar wahân i athrawon yn Lloegr gan gydweithio â chyhoeddwyr sy'n dymuno cynhyrchu gwerslyfrau ar gyfer cymwysterau Eduqas. Mae ganddo raglen fuddsoddi mewn adnoddau ar gyfer cefnogi addysgu a dysgu digidol. Mae CBAC yn gweithio ochr yn ochr â'r tri chorff dyfarnu yn Lloegr o ran ei gyswllt â'r rheoleiddiwr a'r Llywodraeth yn Lloegr.

## Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, gall canolfannau gyflwyno cymwysterau CBAC ac Eduqas, er bod rhai cyfyngiadau mewn rhai meysydd pwnc.

## Cenhadaeth a Gwerthoedd CBAC

Mae CBAC yn bodoli er mwyn cefnogi ein cymunedau addysg trwy ddarparu cymwysterau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol, er mwyn rhoi cyfle i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.



## Strategaeth a Gwerthoedd Craidd

Mae strategaeth CBAC fel corff yn gosod agenda sy'n seiliedig ar gefndir a chyflawniadau'r busnes dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae'n egluro'r meysydd datblygu sy'n allweddol i'r busnes yn ogystal â gosod agenda ar gyfer newid a fydd yn sicrhau cynaliadwyedd parhaus CBAC.

Tri llinyn allweddol sydd i'r Strategaeth ac mae'r rhain yn canolbwyntio ar ddarparu:

- Llinyn 1 - Portffolio cynhyrchion o safon, sy'n cynnig dewis priodol i ddysgwyr
- Llinyn 2 - Profiad gorau yn y dosbarth i'r cwsmer

- Llinyn 3 - Sylfaen sy'n wydn ac yn gynaliadwy i gefnogi twf yn fasnachol ac o ran y sefydliad

Er mwyn cyflawni mewn perthynas â'r llinynnau hynny mae'r strategaeth wedi'i rhannu'n ddau gyfnod:

- 2025 – 2027: Cyfnerthu ac Adeiladu Capasiti
- 2027 – 2030: Cyfnod twf

Mae'r strategaeth yn diffinio'r meysydd allweddol i CBAC ganolbwyntio arnynt wrth iddo geisio gwella ei safle ymhellach fel darparwr cymwysterau allweddol yn ein marchnadoedd craidd yng Nghymru a Lloegr a thu hwnt. Mae cyd-destun y strategaeth hon yn un dyrys o ran amgylchedd y farchnad mewn perthynas â'r cynnyrch, y gwasanaeth a'r her ariannol.

## Gwerthoedd Craidd

Mae gan CBAC gyfres o werthoedd craidd yn ogystal sy'n amlinellu'r hyn y mae'r corff yn sefyll drosto. Y gwerthoedd hyn yw sylfaen cynnal a gwella enw da CBAC, gan lywio’r penderfyniadau y mae CBAC yn eu gwneud:

- Ymrwymiad i'r cwsmer
- Tegwch
- Arloesi
- Gweithio mewn tîm
- Gwerthfawrogi pobl

## Statws elusennol

Elusen yw CBAC sydd wedi'i llywodraethu gan ei gwrthrychau elusennol, sef:

- cynnal, datblygu a darparu systemau sy'n briodol i asesu ac arholi myfyrwyr o bob oed ac o bob disgyblaeth mewn ysgolion, colegau a sefydliadau eraill yng Nghymru a thu hwnt
- cynnig hyfforddiant a chefnogaeth cwricwlwm a rheoli i ysgolion a cholegau
- hyrwyddo, cefnogi a sicrhau twf yn natblygiad yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys drwy ddarparu adnoddau addysgol a gweithgareddau datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon a darlithwyr.

## Dyheadau CBAC at y Dyfodol

Dyhead CBAC at y dyfodol yw manteisio ar yr ymwahaniad sydd i’w gael o ran heriau yn y byd addysg, dod yn ddarparwr o ddewis er mwyn gwella maint ac ansawdd y ddarpariaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn gyson.

I wireddu ei ddyheadau a bodloni ei amcanion corfforaethol, mae CBAC yn cychwyn ar gyfnod o drawsnewid a fydd ar yr un pryd yn manteisio ar y newidiadau a chyfleoedd buddiol a ddaeth yn sgil ei ymateb i'r pandemig coronafeirws. Un o brif gydrannau ein llwyddiant fydd cyflwyno arbenigedd masnachol i ategu'r diwylliant presennol yn CBAC ac a fydd yn gallu arwain newid yn rhan o'r diwylliant hwnnw ac o fewn ei amgylchedd rheoleiddiol.

## Tîm Arwain Gweithredol (TAG)



- Ian Morgan, Prif Weithredwr
- Richard Harry, Cyfarwyddwr Gweithredol: Cymwysterau ac Asesu (Swyddog Cyfrifol)
- Abigail Williams, Cyfarwyddwr Gweithredol: Cyllid a Chaffael
- Ian Edwards, Cyfarwyddwr Gweithredol: Gweithrediadau
- Beverley Green, Cyfarwyddwr Gweithredol: Pobl a Threfniadaeth
- Ben Newby, Cyfarwyddwr Gweithredol: Digidol a Thrawsnewid
- Steffan Edwards, Cyfarwyddwr Gweithredol: Datblygiad Masnachol

## Bwrdd y Cyfarwyddwyr

- Jessica Leigh-Jones, Cadeirydd
- Richard Pendlebury
- Mandy James
- Cemlyn Williams
- Kevin O'Leary
- Martyn Groucutt
- Gaynor Lewis
- Leo Mackenzie
- Andy Carter
- David Shaw

*Mae gwybodaeth bellach am waith CBAC ac Eduqas i'w gweld yma:*

http://www.cbac.co.uk/ http://www.eduqas.co.uk/

# Disgrifiad swydd a manyleb person

## Prif bwrpas y Swydd:

Y Cyfarwyddwr Cynnyrch sy'n atebol am ddatblygiad, ansawdd a pherfformiad masnachol ein cymwysterau cyffredinol, galwedigaethol, technegol a sgiliau – trwy gydol y gylchred oes o'r cychwyn cyntaf i dynnu'r cymhwyster yn ôl.

Gan adrodd yn ôl i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cymwysterau ac Asesu, byddan nhw'n atebol am yr holl waith datblygu cymwysterau, perfformiad cynhyrchion, rheoli'r portffolio cynhyrchion, a gwybodaeth am y farchnad. Byddan nhw'n sicrhau, wrth arwain y timau sy'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau hyn, bod gennym y diwylliant a'r galluoedd yn eu lle i lunio portffolio cynhyrchion o safon sy'n ysgogi perfformiad y sefydliad ac yn cynnig dewis priodol i ddysgwyr.

Y Cyfarwyddwr fydd perchennog y strategaeth datblygu cynnyrch ar gyfer pob un o'n cymwysterau gan sicrhau ein bod yn adolygu perfformiad cynhyrchion yn rheolaidd ac yn sicrhau y gweithredir cynlluniau gweithredu fel bod ein cymwysterau'n parhau i fod yn addas i'r pwrpas ac yn perfformio'n dda yn fasnachol.

Bydd deiliad y swydd yn gyffredinol gyfrifol am amrywiol bolisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod ein cymwysterau'n parhau i fodloni gofynion y rheoleiddwyr a chwsmeriaid. Byddant yn ymgysylltu â, ac yn dylanwadu ar bolisi cymwysterau ac asesu yn ogystal.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

### Cychwyn a datblygu cymwysterau

- Gan gydweithio â'r Cyfarwyddwyr Cynorthwyol datblygu cymwysterau cyffredinol a CGaTh/sgiliau, byddwch chi'n arwain timau o arbenigwyr dylunio cymwysterau i roi arfer 'cywir y tro cyntaf' ar waith wrth ddatblygu, gan lunio cymwysterau sy'n deg, dilys a dibynadwy sy'n bodloni gofynion dysgwyr, canolfannau a rhanddeiliaid eraill.
- Datblygu a bod yn berchennog ar y swyddogaeth gwybodaeth am y farchnad, gan sicrhau bod unrhyw fewnwelediad yn hysbysu ac yn atgyfnerthu pwyntiau gwerthu masnachol unigryw ein cynhyrchion. Sicrhau bod y cyfan yn cyfateb i'n strategaeth ehangach a'n safle yn y farchnad. Bydd hynny'n apelio at grwpiau penodol o ddysgwyr, canolfannau a darparwyr ac yn sicrhau adenillion ar fuddsoddiad drwy fod yn ddilys ar gyfer cyllid ac ystyriaethau eraill.
- Paratoi mewnwelediadau ac opsiynau ar gyfer cynhyrchion newydd yn barod i'w gwerthuso'n fasnachol a bwydo i mewn i broses werthuso.
- Sicrhau bod prosesau cadarn yn eu lle ar gyfer cychwyn a datblygu cynhyrchion, a'u bod yn effeithlon, yn cydymffurfio, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn arwain at yr uchod.
- Sicrhau y defnyddir prosesau sydd wedi ennill eu plwyf wrth drosglwyddo cymwysterau i'r timau cyflwyno. Mae hynny wedyn yn mynd i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â disgwyliadau'r rheoleiddwyr a chwsmeriaid.
- Gweithio gyda'r arweinwyr gwasanaeth asesu a deunyddiau asesu i ddatblygu a chynnal dull gweithredu CBAC o ran strategaethau asesu a glasbrintiau.
- Rhoi cyfeiriad i ddatblygiad y broses o gaffael systemau ar gyfer datblygu a darparu asesiadau, er mwyn sicrhau eu bod yn hyblyg ac yn ddigon datblygedig i gyflenwi ffurfiau presennol a newydd o gynhyrchion.

## Rheoli portffolio

- Sicrhau bod adolygiad rheolaidd yn digwydd ar gynhyrchion a'u perfformiad, er mwyn iddynt barhau i fodloni anghenion cwsmeriaid a chydymffurfio.
- Sicrhau bod egwyddorion cylchred oes cymhwyster a gwelliant parhaus yn cael eu mewnblannu yn y prosesau o ddylunio a darparu asesiadau, gan ddefnyddio adolygiadau perfformiad cyfannol ar gynhyrchion sydd wedi'u llywio gan ddata'n ymwneud â gweithrediad asesiadau, profiad cwsmeriaid mewnol ac allanol ac adborth, yn ogystal â'r ymchwil diweddaraf.
- Sicrhau bod prosesau ar gyfer newid a thynnu cynhyrchion yn ôl yn rhai cadarn, effeithlon, yn cydymffurfio, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn arwain at yr uchod.

## Strategaeth a gwybodaeth am gynhyrchion

- Arwain, datblygu a gweithredu ein strategaeth o ran cynhyrchion, gan gydweithio â thimau masnachol, datblygu cymwysterau, a chefnogi cynhyrchion i ystyried sut i gefnogi egwyddorion trosfwaol y strategaeth o ran cynhyrchion a dylunio ar gyfer cyfresi cymwysterau, gan gwmpasu pwrpas, marchnad(oedd) wedi'i diffinio, pwyntiau gwerthu unigryw, paramedrau ar gyfer lefel gefnogi cynhyrchion, paramedrau ar gyfer model cyflwyno, disgwyliadau masnachol a dangosyddion perfformiad allweddol.
- Arwain y tîm gwybodaeth am y farchnad, sy'n gyfrifol am gasglu a phecynnu data a mewnwelediad i lywio strategaeth o ran cynhyrchion, lleoli a gwerthuso masnachol.
- Argymell a gweithredu strategaeth o ran cynhyrchion ar gyfer pob cymhwyster, gan gynnwys ein cymwysterau sy'n ennill y mwyaf, a chymwysterau a allai ddod yn rhai uchel eu perfformiad.
- Monitro cyflawni cynlluniau ar gyfer strategaeth o ran cynhyrchion i sicrhau dilyn ymlaen.
- Goruchwylio gwaith rheolwyr cynhyrchion, sy'n gyfrifol am berfformiad cyfres o gymwysterau diffiniedig, a gweithio gyda chydweithwyr asesu, cwsmeriaid a gwerthiant/marchnata i weithredu ar gyfleoedd i wella, cefnogi a marchnata'r cymwysterau.

## Cydymffurfio rheoleiddiol

- Bod yn atebol am sicrhau bod CBAC yn parhau i gydymffurfio â holl Amodau'r rheoleiddwyr sy'n ymwneud â chynnwys a darpariaeth asesiadau, gan sicrhau bod gennym brosesau clir ar waith i ddatblygu a darparu asesiadau. Dylai'r rhain gael eu cyfleu a'u cadw. Mae hyn yn cynnwys:
    - D1 – Addasrwydd cymwysterau i'r pwrpas
    - E1 – Pwrpas a chefnogaeth i gymwysterau
    - E5 – Sicrwydd bod cymwysterau'n cydymffurfio â'r amodau
    - E6 – Cyflwyno cymwysterau i'r Gofrestr/QiW

## Dull gweithredu masnachol

- Sicrhau bod timau cynhyrchion yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â'n cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid a'r gymuned addysg yn ehangach, gan wneud hyn mewn ffordd agored, amserol, dryloyw a rhagweithiol.

- Sicrhau bod ein timau asesu'n ystyried elfennau masnachol yn eu gwaith, gan fynd ati i reoli costau mewn ffordd ragweithiol, canolbwyntio ar weithgareddau sy'n dod â'r gwerth mwyaf, a chwilio am gyfleoedd i dyfu'r gyfran o'r farchnad.
- Sicrhau bod ymchwil, deallusrwydd busnes a gwybodaeth rheoli yn sail i waith timau cynhyrchion, gan gynnwys adrodd yn ôl yn erbyn amcanion a DPA a gytunwyd.

## Dyletswyddau Corfforaethol

- Chi fydd yn arwain, yn cymell ac yn ysbrydoli datblygiad staff er mwyn galluogi sicrhau cyflawni cynlluniau busnes; gan hyfforddi a mentora eraill i feithrin dawn a chynyddu gallu.
- Byddwch chi'n fodel rôl amlwg ac ysbrydoledig, ac yn atgyfnerthu gwerthoedd craidd y sefydliad.
- Byddwch chi'n gyfarwydd â'r holl bolisïau a gweithdrefnau cwmni perthnasol, gan sicrhau bod aelodau'r tîm wedi derbyn gwybodaeth am a hyfforddiant ar yr holl weithdrefnau a pholisïau a'u bod yn cydymffurfio â nhw.
- O dro i dro byddwch chi'n ymgymryd â dyletswyddau ar lefel debyg yn ôl y gofyn, gan gynnwys bod yn ddirprwy i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cymwysterau ac Asesu.

## Dyletswyddau Eraill

- Cynrychioli CBAC mewn cyfarfodydd â'r Rheoleiddwyr a'r CGC sy'n ymwneud â datblygu cymwysterau, rheoli portffolio, a materion perthynol.
- Ymateb i gwynion gan ganolfannau a phartïon eraill â diddordeb ynghylch y dylunio cymwysterau a materion eraill.
- Arwain ar yr ymateb i ddigwyddiadau difrifol lle bo'n briodol.

## Arall

- Deall a chydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer.
- Bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu personol a phroffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y galw sy'n gymesur â gradd y swydd.

# Manyleb y Person

**Dull Asesu:**
**C = Cais; Cyf = Cyfweliad; P = Prawf/Gweithgaredd**

## Sgiliau a Galluoedd

**Hynod Ddymunol**

- Arwain a chydweithio strategol ar draws y gyfarwyddiaeth Cymwysterau ac Asesu a'r corff yn ehangach (C)
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid (C)
- Craffter busnes cryf gyda'r gallu i ddefnyddio mewnwelediad masnachol i lywio penderfyniadau, nodi cyfleoedd ac ysgogi gwerth sefydliadol. (C)
- Y gallu i ymgysylltu a chyfathrebu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid allweddol a gwneuthurwyr polisi, gan ddangos sgiliau dylanwadu a thrafod effeithiol. (C)
- Sgiliau rheoli projectau, a'r gallu i reoli sawl project ar unwaith (C)
- Craff yn wleidyddol, gydag urddas a hygrededd proffesiynol i ennyn hyder a chreu perthnasoedd llwyddiannus (Cyf, P)
- Yn gallu arwain agweddau a rhoi cyfeiriad ar ddyfodol cymwysterau (Cyf, P)

**Dymunol**

- Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg (C)

## Gwybodaeth

**Hynod Ddymunol**

- Dealltwriaeth gref o gyd-destun a threfniant y tirwedd cymwysterau yng Nghymru a Lloegr. (C)
- Gwybodaeth am reolaeth ariannol. (C)
- Gwybodaeth gynhwysfawr am strategaethau rheoli risg. (C)
- Dealltwriaeth o egwyddorion rheoli projectau a rheoli ansawdd. (C)

**Dymunol**

- Gwybodaeth drylwyr am egwyddorion asesu (C)
- Dealltwriaeth o faterion contractiol. (C)
- Dealltwriaeth gynhwysfawr o systemau, prosesau a llinellau amser y rheoleiddwyr ar gyfer Cyrff Dyfarnu. (C)

## Profiad

**Hynod Ddymunol**

- Profiad o arwain a/neu reoli llwyddiannus ac effeithiol, a gafwyd yn y cyd-destun rheoli cynhyrchion cymwysterau a/neu asesu. (C, Cyf)
- Profiad o arwain a gweithredu atebion arloesol wrth ddatrys problemau sy'n effeithio'n strategol. (C, Cyf)
- Profiad o reoli sawl project ar unwaith yn llwyddiannus. (C, Cyf)
- Profiad o adeiladu a chynnal partneriaethau a pherthnasoedd strategol yn llwyddiannus gan alluogi i gorff dyfu a/neu ddatblygu. (C, Cyf)

**Dymunol**

- Profiad o reoli cyllidebau a chynllunio busnes. (C, Cyf)

### Addysg, Cymwysterau a Hyfforddiant

**Hynod Ddymunol**

- Addysg hyd at lefel gradd neu gywerth ar Lefel 5 ac uwch. (C)
- Tystiolaeth o ymrwymo i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol. (C)

**Dymunol**

- Tystiolaeth o Ddatblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth perthnasol (C)

# Telerau ac Amodau

Penodiad parhaol yw hwn. Nodir y prif delerau isod:

- **Lleoliad:** Gweithio hybrid yn swyddfeydd CBAC yng Nghaerdydd, yn swyddfeydd CBAC yn Nhrefforest a gartref. O ran y rôl hon, mae disgwyl y bydd yr unigolyn yn gweithio ar y safle am 1 diwrnod pob pythefnos.
- **Cyflog:** £93,510 - £103,116 y flwyddyn
- **Gwyliau blynyddol:** 25 diwrnod o wyliau â chyflog ynghyd ag 16 diwrnod statudol/ychwanegol.
- **Cynllun pensiwn**: Mae CBAC yn cynnig 2 gynllun pensiwn cyfrannol, y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r Cynllun Pensiwn Athrawon. Gellir ymuno yn ôl rheolau'r cynllun.

# Sut i ymgeisio

Mae Peridot, ymgynghorwyr Chwilio am Rolau Gweithredol, wedi'u cyflogi yn benodol gennym i gefnogi â'r broses o chwilio a phenodi i'r rôl hon. Dylid anfon ceisiadau atynt erbyn y dyddiad cau sef dydd Mawrth 03 Mawrth, **9:00am.**

Ewch i https://www.peridotpartners.co.uk/jobs/director-of-product-wjec-cbac/?apply

**I gyflwyno cais yn ffurfiol** dylech gyflwyno eich CV ynghyd â datganiad ategol manwl yn amlinellu sut rydych chi wedi defnyddio'r canlynol yn ymarferol: **1)** eich gwybodaeth a phrofiad o'r hyn sy'n digwydd o ran cymwysterau yng Nghymru a Lloegr **a 2)** eich cyfraniad at reoli ac arwain eich tîm, adran neu gorff (2 dudalen ar y mwyaf), sydd wedi arwain at ddatblygu a gwella yn ystod eich gyrfa.

Bydd Peridot yn cynnal cyfweliadau rhagarweiniol yn ystod yr wythnos yn cychwyn 23 Mawrth 2026 a chynhelir cyfweliadau Panel Terfynol wyneb yn wyneb yn ystod yr wythnos yn cychwyn 20 Ebrill 2026.